CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, **Nos Lun 14eg o Chwefror 2022 am 6.30y.h.** trwy Gyfrwng TEAMS.

PRESENNOL :	Cyng. Margaret Thomas	-	Cadeirydd
	Cyng. Ieuan G. Davies	-	Cyng. Arwel Môn Hughes
	Cyng. Victor Hughes	-	Cyng. Henry D. Jones
	Cyng. Terry Jones	-	Cyng. John Lee
	Cyng. J. Egryn Lewis	-	Cyng. J. Huw Owen
	Cyng. Christine Roberts	-	Cyng. Gwenan Ll. Evans.

HEFYD YN BRESENNOL :	Cyng. Dylan W. Rees	-	Cynghorydd Sir
	Mr. H. Rhys Parry	-	Clerc
	Ms. Linda Powell	-	Cymhorthydd Clerigol

Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod

21/150 **YMDDIHEURIADAU :** Cyng. Non Wyn Parry, Cyng. Eleri Ll. Burns, Cyng. Richard Parry.

21/151 **DATGANIAD O DDIDDORDEB :** Dim.

21/152 **HEDDLU GOGLEDD CYMRU :** Dim Cynrychiolydd – (PCSO Lee Monk ddim wedi gallu cysylltu i'r linc TEAMS).
Cadeirydd yn adrodd ei bod wedi derbyn cwyn yn ymwneud ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar safle cyn Ysgol Gynradd Penrallt. Bydd y cwyn yn cael ei anfon ymlaen at y PCSO's i'w ymchwilio. **Derbyn.**

21/153 **SEDD WAG – WARD TUDUR**
Cadeirydd yn adrodd, yn dilyn ymddiswyddiad Mr. Jamie Jones, bod Sedd Wag ar Ward Tudur. Cadeirydd yn diolch yn fawr i Jamie, ar ran y Cyngor Tref, am ei gyfraniad i'r Gymuned yn ystod y ddwy flynedd diwethaf fel Cynghorydd a hefyd yn cydnabod ei holl waith cymunedol yn ystod Pandemic Covid-19.
Clerc a'r Cadeirydd yn awgrymu, oherwydd bod yr Etholiad ym Mis Mai, i hysbysebu'r Sedd Wag ar ôl hyn. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod.

21/154 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 13.12.2021**
Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi cael cyfle o flaen llaw i edrych trwy'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod Cyng. Egryn Lewis wedi cysylltu gyda'r Swyddfa ynglŷn â'r Cofnodion. Materion wedi eu cofnodi o dan Eitem 21/155 o'r Cofnodion uchod.
Eitem 21/142.1 – Adroddiad y Clerc – Mynwent Newydd – Cyng. Lewis yn adrodd dylid union ddyddiad cyfnod y Cytundeb Tir Pori ymddangos yn y Cofnodion. Clerc yn cadarnhau fod y Cytundeb hyd at 31ain o Fawrth 2022 a bydd y Cofnodion yn cael eu cywiro. **Derbyn**
Tudalen 1 o'r Cofnodion 13.12.2021 - Cynghorydd Sir Dylan Rees yn tynnu sylw fod y Cofnodion yn darllen ei fod yn bresennol ac wedi ymddiheuro i Gyfarfod 13.12 2021. Yn absenoldeb Cyng. Rees i'r Cyfarfod uchod, Cyng. Bob Parry oedd yn bresennol. Bydd y Cofnodion yn cael eu cywiro i ymddangos hyn.

PARHAD/21/154

Yn dilyn yr uchod, Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. J. Huw Owen yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

21/155 I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 13.12.2021

Cadeirydd yn datgan, os bu unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu trwy'r Swyddfa o flaen llaw, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS. Clerc yn cadarnhau fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi cysylltu gyda'r Swyddfa ynglŷn â'r materion isod :

Eitem 21/138 - Cerbyd y Cyngor – Ymchwil gan y Clerc/Dirprwyo'r Cyngor Tref
Eitem 21/142.1 – Diweddariad ar sefyllfa'r Fynwent Newydd
Eitem 21/142.5 – Canol y Dref
Eitem 21/143.3 - Ysgol Corn Hir – Llywodraethwyr – Awgrymu ail-edrych ar hyn;
Eitem 21/144.2 - Praecept 2022-2023 – Gwybodaeth angen bod mwy clir;
Eitem 21/148.1 - Tir Penlan – Dyddiadau'r Cytundeb

Clerc wedi ymateb i'r uchod trwy'r Swyddfa.

21/156 CYNLLUNIO

I DDERBYN PENDERFYNIADAU IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO AR YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO – IONAWR / CHWEFROR 2022

PENDERFYNWYD derbyn Cofnodion 9.02.2022 fel rhai cywir. Cadeirydd yn cadarnhau fod sylwadau'r Aelodau wedi eu hanfon ymlaen ar Gyngor Sir Ynys Môn.

21/157 I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBON GAN Y MAER

Cadeirydd yn adrodd fod sefyllfa Covid-19 yn gwella ac yn edrych ymlaen at amser gwell i ddod i Fusnesau'r Dref.

Cadeirydd yn datgan fod Cyfarfod wedi ei gynnal yn Barc Gwyddoniaeth MSPC yn ddiweddar yn cyhoeddi bydd y gwaith adnewyddu yng Nghapel Moreia yn dechrau yn fuan. Cadeirydd yn diolch i bawb sydd wedi cefnogi'r Fenter a'r holl ymdrech i gyrraedd y cam hwn.

21/158 MATERION YN CODI GAN AELODAU : Dim

21/159 ADRODDIAD Y CLERC

Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol :

1 **Mynwent Newydd - Tir Penlan :** Asiant wedi paratoi a rhoi'r Cais Cynllunio at ei gilydd a'i chyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn. Disgwyl ymateb.

Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw at Eitem 21/137.1 o Gofnodion Cyfarfod Rhagfyr 13.12.2021 yn ymwneud ac Aelodau Is-bwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae yn derbyn unrhyw ddiweddariad ar sefyllfa'r Fynwent newydd yn ystod Mis Ionawr. Clerc yn ymateb fod wedi bod yn gyfnod distaw a dim datblygiadau i adrodd yn ôl. Cyng. Victor Hughes, fel Cadeirydd Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae, yn awyddus i gael golwg ar y Cais Cynllunio ac i gyfathrebu gyda'r Asiant ynglŷn â'r gwaith sydd yn cael eu gwneud ar ran y Cyngor Tref. Clerc yn cadarnhau, unwaith bydd wedi derbyn y Cais Cynllunio trwy'r Swyddfa, bydd yn e-bostio copi i Gadeirydd yr Is-bwyllgor. **Derbyn**.

PARHAD 21/159

Cyng. J. Egryn Lewis yn holi ynglŷn â derbyn mwy o wybodaeth ar amodau'r benthyciad gan y PWLB ac ad-daliad cynnar. Cyng. Victor Hughes yn cefnogi'r cais uchod.

Clerc yn datgan ei fod yn disgwyl canlyniad yr Asiant ac ymateb Cyngor Sir Ynys Môn ar y Cais Cynllunio gyn symud ymlaen gyda'r uchod. **Derbyn**.

2 **Myfyrwyr Coleg Menai -** Dim cysylltiad pellach wedi bod gyda Darlithiwr y Coleg. Gobeithio symud ymlaen gyda'r gwaith cymhorthi yn ystod tymor y Gwanwyn. Clerc am gysylltu gyda'r Coleg yn y dyfodol agos. **Derbyn**.

3 **Diweddariad ar y canlynol :**

(a) Trosglwyddo Safle'r Orsedd – Wedi cwblhau'r Trosglwyddiad a threfniadau mewn lle i dorri'r drain a thacluso'r safle. Bydd drain wrth ochor lon Tir Penlan yn cael ei dorri'r un pryd. **Derbyn**.

(b) Trosglwyddo Cae Criced – Dim byd pellach i adrodd. Sefyllfa ddim wedi newid. Cyfreithiwr y Cyngor Tref wedi siarad gyda Chyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr yn gofyn am ddiweddariad. Cyngor Tref yn ymwybodol bod Anfoneb o £1,000.00 i'w dalu yn dilyn Cyngor yr Arbenigwr. Taliad yn cael ei wneud pan fydd y gwaith yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Tref. **Derbyn**.

(c) Melin y Graig - Dim wedi derbyn mwy o wybodaeth gan Swyddogion Cyngor S**ir** Ynys Môn. Erbyn hyn, efallai bod cynlluniau wedi newid. **Derbyn.**

4 **Teithio Llesol** - Dim wedi derbyn unrhyw gyfathrebiad gan Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn, ers Mis Rhagfyr 2021. Gobeithio cwblhau'r gwaith gwelliannau yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn 2022. Mae cynlluniau'r Prosiect yn cynnwys gwella'r llwybr ar ymylon Cae Chwarae Maes Hyfryd at y Lawnt Bowlio a hefyd gosod dwy Fainc ar hyd Lon Las Cefni. **Derbyn**.

21/160 **ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL**

Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :

1 **Un Llais Cymru - Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn - 20.01.2022** - Cadeirydd yn adrodd mai'r Siaradwr Gwadd oedd Cynrychiolydd o "Planning Aid Wales" ar sut y gallant helpu Cynghorau Thref a Chymuned i ddelio a cheisiadau Cynllunio. Awr am ddim o Hyfforddiant ar gael trwy gysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn. Hefyd cyfleusterau ar gyfer

Linc Fideo.

Cronfa Ddigidol Hybiau Cymunedol – Grant ar gael i Hybiau Cymunedol wneud cais am offer digidol ar gyfer cynnal cyfarfodydd Hybrid. Edrych i mewn am fwy o wybodaeth ar y We. Dim Trafodaeth.

Ymchwiliad Gwelliant i'r Linc Rheilffordd - Ail-edrych ar y lein yn rhedeg i Amlwch ac o Lundain i Gaergybi.

2 **Cymorth Cynllunio Cymru – Hyfforddiant – Ymateb i Ymgynghoriadau Polisi Cynllunio 26.01.2022 –** Dim Trafodaeth

3 **Cyngor Sir Ynys Môn - Cyfarfod Fforwm Cyswllt - 07.02.2022 -** Pennaeth Adran Cyllid, Cyngor Sir Ynys Môn yn rhoi cyflwyniad fod cyllideb ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, sef, gwario ar gynnal a chadw'r Toiledau Cyhoeddus ar agor. Adroddiad llawn i gael ar safle We'r Cyngor Sir. Sefyllfa eleni yn edrych yn addawol iawn gyda chymorth gan y Cynulliad hefyd.

Cyng. Dylan Rees yn ychwanegu fod buddsoddiad o £2.2 miliwn ar gyfer gwasanaethau**.** Treth Cyngor Sir yn cael ei gadw i lawr gyda chynyddiad o 2%.

PARHAD 21/160

4 **Ysgol Corn Hir – Llywodraethwyr –** Cadeirydd a'r Clerc yn awgrymu disgwyl nes bu Cyfnod yr Etholiad ym Mis Mai wedi dod i ben cyn penodi Cynrychiolydd ar Ffwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod.

21/161 CYLLID

I Dderbyn Mantolen Ariannol Rhagfyr 2021 & Ionawr 2022

Cadeirydd yn adrodd, os bu unrhyw gwestiynau yn codi o'r Fantolen Ariannol uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS.

Clerc yn adrodd fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi cysylltu gyda'r Swyddfa yn gofyn am eglurhad ynglŷn â'r canlynol :

Rhagfyr 2021 - 2 Daliadau i BG Business - Trydan y Swyddfa a thaliad terfynol ar ddiwedd Cytundeb efo British Gas oedd yn cael eu talu yn fisol;

Taliad i Herron Services – Tannwydd i'r Tirmon ar gyfer defnydd ei gerbyd;

Ionawr 2022 - 5 Taliadau i Scottish Power - Ar gyfer y pum Mesurydd Trydan wedi eu lleoli o fewn eiddo'r Cyngor Tref;

Taliad i Screw Fix – Drill ar gyfer gwaith allanol y Tirmon.

Cyng. John Lee yn tynnu sylw at y canlynol :

Tudalen 2 - 5 Taliad i Scottish Power – Clerc yn ymateb fel yr uchod;

Cynyddiad yn y Gyflogaeth rhwng Mis Rhagfyr 2021 ac Ionawr 2022 - Gwasanaeth Ychwanegol yn y Swyddfa;

Tudalen 3 - Clwb Pêl Droed Llangefni - Hanner yr ôl-daliad am Drydan y Tŷ Clwb yn ystod y cyfnod 15.08.2020 hyd at 14.10.2021 - Taliad terfynol i'w dderbyn mis nesaf.

Yn dilyn yr uchod, Cyng. Christine Roberts yn Cynnig a Cyng. J. Egryn Lewis yn Eilio i dderbyn y Mantolau Ariannol. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Rhagfyr 2021 ac Ionawr 2022.

Cyng. Lewis yn holi am ddyddiad y bydd Cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol yn cael ei gynnal a hefyd amserlen o ddyddiadau Is-bwyllgorau tan ddiwedd mis Mawrth. Clerc yn ymateb ei fod mewn cysylltiad gyda Chadeirydd yr Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol i gytuno ar ddyddiad i gyfarfod yn fuan.

21/162 ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cynghorydd Sir, Dylan W. Rees yn adrodd ar y canlynol :

- Ymgynghoriad Treth Cyngor Sir Ynys Môn/Cynllun Blaen Raglen Waith - ar gael ar Safle We'r Cyngor Sir;
- Safle Glan Cefni - cwynion fod y palmenti yn gul a'r traffig yn teithio yn gyflym yn yr ardal. Ymweliad safle i'w gynnal i geisio gwella'r sefyllfa;
- Cwynion fod y palmenti wrth ymyl Bont Allt Station yn ofnadwy o lithrig ac yn beryg i gerddwyr. Cyng. Rees am gysylltu gydag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir ac edrych ar Asesiad Risg.
- Cadeirydd yn ychwanegu fod yr ardal o flaen Siop Elusen "Age Cymru" ac yn rhedeg tuag at Fflatiau Llawr y Dref hefyd yn llithrig ac yn beryglus. Cyng. Margaret Thomas yn cefnogi cais y Cynghorydd Sir i ymchwilio'r uchod gyda'r Adran Priffyrdd.

21/163 GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD

1 **Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynaeafu a Chludo Coed yng Nghoedwig Cefni – 20.12.2021** – Dim Trafodaeth;

2 **Cyngor Sir Ynys Môn - Pencampwyr Iaith Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn 15.12.2021** - Dim Trafodaeth;

3 **Jiwbilî Platinwm y Frenhines Arian i Bawb - Y Loteri Genedlaethol - E-bost 11.01.2022 –** Cyng. J. Egryn Lewis yn awgrymu edrych ar Grantiau ar gyfer y Dathlu. Cadeirydd yn awyddus i holi Mudiadau eraill y Dref, i ymuno yn eu cynlluniau. Dim trafodaeth bellach.

4 **Dydd Gŵyl Dewi - Orymdaith - 03.03.2022 -** Medrwn Môn yn rhoi gwybod fod Orymdaith yng nghanol y Dref wedi ei drefnu ar y 3ydd o Fawrth 2022 ac yn gofyn am Wirfoddolwyr i stiwardio. Cyng. Margaret Thomas, Cyng. Non Parry a Cyng. Victor Hughes, wedi rhoi eu henwau ymlaen ar gyfer hyn. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod o hyn i Swyddog Menter Môn. **Derbyn.**

21/164 GOHEBIAETH : ER GWYBODAETH

Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Misoedd Rhagfyr2021/Ionawr 2022

1 **Un Llais Cymru : Derbyn**

2 **Materion Eraill : Derbyn.**

21/165 I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y MAER

1 **Cerbyd y Cyngor -** Adroddiad llafar ar y cyd gan y Cadeirydd a'r Clerc.

Cadeirydd a'r Clerc yn arwain yr Aelodau trwy'r opsiynau o symud ymlaen i alluogi darganfod ffordd fwyaf addas a 'gwerth am arian' i brynu cerbyd, fel a ganlyn:

- Prynu yn uniongyrchol
- Prynu gyda benthyciad Hire Purchase
- Les
- Defnyddio Cronfeydd wrth gefn (£20,000) i arbed talu llog uchel, a'i dalu yn ôl i'r Cyngor Tref yn unol â thermau llogi a.y.b.;

Clerc yn esbonio mai 'Pick Up' ydyw'r cerbyd mwyaf ffafriol ar gyfer gwaith allanol y Tirmon, ac yn edrych am gerbyd o fewn 3 - 4 mlwydd oed, gyda phrisiau oddeutu £18,000.00 & TAW. Yn ychwanegol mae cerbyd cludo nwyddau a.y.b. yn hanfodol i waith dyddiol allanol y Tirmon ac mae brys i symud ymlaen gyda'r pryniant cyn tymor y Gwanwyn.

Yn dilyn trafodaeth, i arbed arian, Cyng. J. Egryn Lewis yn cynnig defnyddio'r Cronfeydd wrth gefn, i fynnu at y ffigwr o £20,000.00, ar gyfer prynu cerbyd. Cyng. Terry Jones yn Eilio'r cynnig.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i dderbyn y cynnig uchod a rhoi awdurdod i'r Clerc symud ymlaen i brynu cerbyd hyd at y ffigwr o £20,000.00 trwy ddefnyddio'r Cronfeydd wrth gefn. **PENDERFYNWYD YMHELLACH** cael cymorth gan Cyng. Terry Jones ar y pryniant.

2 **Materion yn codi gan Cyng. Victor Hughes :**

- **Maes Chwarae Nant y Pandy** - Angen pwyso ar y Cwmni Lleol i gael golwg ar yr offer chwarae 'Pyramid' sydd â gwaith i'w atgyweirio;
- Angen Bin Ysbwriel - Cyng. Margaret Thomas yn datgan fod hyn yn derbyn sylw, gyda chostau oddeutu £500 i archebu bin ysbwriel 'Fire Proof', gyda rhai o'r Meysydd Chwarae eraill angen biniau ysbwriel hefyd. Cyng. Henry Jones yn awgrymu holi Cadw Cymru yn Daclus ynglŷn â hyn. **Derbyn.**

PARHAD 21/165

- **Llwybr ger yr Afon, safle Maes Parcio Neuadd y Dref -** Llwybr/palmant angen ei lanhau. Cyng. Hughes yn cynnig rhoi benthyg 'Pressure Washer i'r Tirmon ar gyfer y gwaith yma. Meinciau wedi pydru hefyd. Clerc yn adrodd, o dan Brosiect Teithio Llesol Cyngor Sir Ynys Môn, fod yr ardal yma wedi ei glustnodi fel rhan o gynlluniau gwelliant y dref, i gael eu tacluso.
- **Cyfarfod Wyneb yn Wyneb -** Edrych ar ail-gyfarfod wyneb yn wyneb pan fydd cyfyngiadau yn codi ar ôl 28.03.2022. Clerc yn gobeithio cychwyn hyn yn fuan ar ôl derbyn cyngor gan Un Llais Cymru. Cadeirydd yn adrodd fod cais yn cael ei gyflwyno i dderbyn Teledu Smart i gynnal cyfarfodydd Hybrid yn y dyfodol. **Derbyn.**

2 **Ffurflen i Ddatgan Diddordeb Ariannol neu Ddiddordeb Ymgofrestredig**
Ffurflen i'w chwblhau gan Aelodau - Dim Trafodaeth.

21/166 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Nos Lun 14eg o Fawrth 2022.**

CYNG. MARGARET THOMAS

CADEIRYDD